

BRIWSION BRUCE

Dirgelion de Sir Benfro

Efallai y bydd enw S.P.B. Mais yn gyfarwydd i ambell un. Darlithydd, darlledwr a newyddiadurwr toreithiog ydoedd, awdur nifer o lyfrau teithiau diddan, yn bennaf o gwmpas Lloegr. Yn ei *Little England Beyond Wales* ceir dyddylyfr sgrysiog ei wyliau yn Ninbych y Pysgod yn 1948. Bu ar sawl gwibdaith drwy Sir Benfro, gan ddangos diddordeb deallus yn ei hanes. Yr oedd gyrrwr un siarabng yn hynod olau yn hanes y sir, gan wneud ambell honiad diddorol iawn. Yn Hwlfordd, er enghraifft, cyfeiriodd at Eglwys y Santes Fair gan ddweud "That was where Charles II married Lucy Walters. In order later to repudiate it he ordered the Church registers to be sento him and never returned them". Meddai'r awdur "Then the Duke of Monmouth was the rightful heir to the Throne after all. It would seem so", cytunodd y gyrrwr. Rhyfedd meddwl: petai'r hanner-Cymro anffodus heb wrthryfela yn 1685, a phetai wedi aros tair blynedd arall, siawns na chwaisai'r Saeson yng ngwrthryfel 1688 frenin dipyn yn nes atynt na'r Holandwr William!

Fe gofwrch yr holl hw-ha a fu gan y Saeson y llynedd, wrth ddaithu dau gannlyddiant brwydr Trafalgar a marwolaeth yr Arglwydd Nelson. Yn sgil hynny cafodd ei gariad Emma Hamilton gryn sylw hefyd. Bu iddi gysylltiadau â Chymru. Ganed hi'n Emma Lyon, ym mhentref Ness yng Nghilgwrri (y Wirral) ond magwyd hi ym Mhenarlâg, cartref ei mam, yn Sir Flint. Wedi marw Nelson aeth i gryn adfyd ac yn ôl yr hanes swyddogol bu farw'n dlotyn yng Nghalais. lle claddwyd hi: bellach ni wyddys lle y gorwedd. Ond gan yrwr y siarabng cafodd S.P.B. Mais stori wahanol. Ar daith trwy bentrefi Caerw a Chreseli, "He pointed to a square handsome house standing among trees to the north above (the) A40. "That's Ridgeway House where Nelson stayed with Lady Hamilton. Nelson's aunts lived at Killotson House, so it was his own family neighbourhood". Ychwanega'r awdur "Lady Hamilton was not as everyone supposes buried as a pauper. When she died she was brought in secret to the old church at Slebech, now in ruins, and buried there. The de Rutzens didn't want people to know that and discouraged visitors. The church was allowed to go to ruins and de Ruten built in 1838 the hideous church with the spire that stands on (the) A40". Nid yw'n eglur ai dyfynnu'r gyrrwr y mae yma ai peidio. Llên gwerin ynteu gwirionedd? A oedd Nelson o dras Gymreig? Ni lwyddais i ddod o hyd i Killotson House ar unrhyw fap, na dim o'i hanes: nis rhestrir yn *The Place-Names of Pembrokeshire* B. G. Charles. Diau y gall un o'n darllenwyr ddweud a oedd gyrrwr y siarabng yn siarad ar ei gyfer ai peidio.

Gyda llaw: er imi fyw y rhan fwyaf o f'oes bellach ar lannau'r Feni, syndod imi fu mynd am dro'n ddiweddar o Lanfair-pwll heibio Eglwys y Santes Fair at y traeth, a gweld yno gerflun coffa o'r Arglwydd Nelson yn syllu dros yr afon.

Ibsen yn Gymraeg.

A sôn am Lanfair-pwll: atgoffir fi o'm diweddar gyfaill John Lasarus Williams, y gwladgarwr diledryw a drigai yno ac a gyhoeddodd glamp o lyfr graenus, cynhwysfawr a diddan am Fôn a Gwynedd dan y teitl *The Land of the Long Long Name* (Llyfrau Lleiniog, 1999) (ISBN 0 952 5267 19), gyda Llanfair-pwll fel man eychwyn i'w ymddiried. Bu'n chwth iawn i Gymreictod Môn a Gwynedd ar ei ôl. Ers ei farw, er hynny, cyhoeddwyd rhagor o'i waith. Meddyliais y byddai'n werth tyngu eich sylw at *Rhywm wrth y Drows: Addasiad o Bygmaster Solness (The Master Builder)* gan Henrik Ibsen. Cyh. John Lasarus Williams: Llyfrau Lleiniog, Gwasg y Bwthyn 2004; (ISBN 0 9525267 43) Ei bris: £5.00 Ni welswn ei hysbysebu yn unman ac yn siop Awen Menai ym Mhorthaethwy y cefais fy nghopi. Olnaf mai ychydig sy'n prynu dramâu, llai fyth sy'n prynu cyfieithiadau ohonynt a phrin y gall cyhoeddwr bychan fforddio hysbysebu rhyw lawer. Eto efallai y bydd rhyw gwmni drama neu deledu yn ei hystyried hi'n werth llwyfannu clasur fel y ddrama hon. Er gwaethaf pob chwth a fu ym myd

y theatr, deil dramâu Ibsen i fod yn werth eu llwyfannu a'u darllen. Cyhoeddwyd pedwar cyfieithiad o'i waith i'r Gymraeg: *Dychweledigion*, cyf. T.Gwyn Jones (1920); *Yr Ymhomwyr*, cyf. J.Glyn Davies a D.E.Jenkins (1922); *Tŷ Dol*, cyf. Ifor Williams (1926); *Hedda Gabler*, cyf. Tom Parry ac R.H. Hughes (1930). Nid oes yr un mewn print. Cofiaf weld Cwmni Drama'r Coleg Normal (a oes y fath beth heddiw?) yn llwyfannu cyfieithiad Huw Lloyd Edwards o *Pæer Gynt*, ond hyd y gwn nis cyhoeddwyd. Sonia John L. (fel y'i gelwid) am 'weld perfformiad o *Ddoe yn ôl*, cyfieithiad campus Griffith Parry o *Ghosts* ond ni chyhoeddwyd mo hwnnw ychwaith.

Leithoedd y Nefoedd?

Flynyddoedd yn ôl, wedi cyhoeddi *Geiriadur yr Academi* cefais lythyr gan ryw frawd o Sais yn holi ai gwir oedd fod y Gymraeg yn tarddu o'r Hebraeg neu o leiaf fod perthynas rhyngddynt. Sicrhais ef nad gwir mo hynny, gan ryfeddu at wytnwch ambell hen goel gwrach. Yn ddiweddarach, yn Ffair Lyfrau'r Bala, daeth ataf y Dr Karl Jongeling, ysgolhaig o'r Iseldiroedd, i brynu copi o'r *Geiriadur*. Yr oedd yn berchennog ar dŷ gwyliau yn Sir Feirionnydd a chanddo gryn ddiordordeb yn y Gymraeg. Cyhoeddasai *Comparing Welsh and Hebrew* (Universitât Leiden, Nederland, 2000), sydd yn olrhain twf y gred hon ac yn dadansoddi'r nodweddion a allasai fod wedi ei hategu. Gallai ddiordori ambell un ohonoch: ei bris yw rhyw £16 ac fe'i cheir trwy anfon at y Dr W.J. Vogelsing, CNWS Pub. C/o Research School, Universitât Leiden, Leiden, Nederland.

Saunders Lewis – y gair olaf arno?

Clywais gan fy hen gyfaill T. Robin Chapman ei fod yn gobeithio gweld cyhoeddi ei gofiant i Saunders Lewis erbyn yr Eisteddfod eleni. Eisoes cyhoeddodd gofiannau i Ambrose Bebb, W.J. Gruffydd, ac Islwyn Ffowe Elis ymhlith astudiaethau eraill a bydd cryn gip, mi goelïa'i, ar y nesaf. Codaf fy het i Robin: mae ei egni, ei gynnyrch toreithiog a'i Gymraeg graenus yn destun rhyfeddod o hyd, a dylent godi cywilydd ar sawl llenor ac academydd yn ein plith (heb f'eithrio fy hun).

Ar lan y môr

Hapus dyrfa a fu'n sbrotian ac yn swllfa trwy filoedd o hen lyfrau yn y Morlan (onid y Forlan a fyddai'n gywir?) yn ein Ffair Lyfrau yn Aberystwyth, Mai'r Ged, Saif y Forlan lle safai capel Seilo gynt, yn hwylus yng nghanol y dref. 'Roedd y lle dan ei sang pan agorwyd y ffair gan y Dr Huw Walters o'r Llyfrgell Genedlaethol. Bu'n llyfrbryf ers dyddiau ysgol, pan aeth yn gwsmer cyson yn siop enwog Ralph yn Abertawe. Ef bellach yw'r awdurdod pennaf ar gylchgronau Cymraeg a Chymreig o bedwar baf y byd. Erbyn y prynhawn, aeth pethau'n dawl iawn er bod y lle mor ganolog. Gwnaethom elw digon parchus, ond gwariais fwy na'i hanner ar *The Eve of Saint John* Saunders Lewis, yn stonid Siop yr Hen Bost. Cofiaf imi, dros ddeugain mlynedd yn ôl, dreulio oriau, onid dyddiau, yn teipio copi ohoni yn Llyfrgell Bodley. Ers hynny ailgyhoeddwyd hi (a *Gwaed yr Uchelwyr* hitiau) ar gyfer tanygrifwyr gan Bwyllgor Arfon Cronfa GoFfa Saunders Lewis ym 1994. Cant a hanner o gopiau a argraffwyd o bob un. Credaf i'm cyfaill Dafydd Glyn Jones daro ar gopi o'r argraffiad gwreiddiol am chwecheiniog ym marchnad dan do Bangor gynt. A chyda llaw, diolch i'r nifer a roes air da i'r golofn hon – melys moes mwy.

Rhai hen wyneb, ac un newydd

Diddan fu sgwrsio â dau a fu'n llafurio ar *Eiriadur yr Academi* gynt: Iestyn Daniel o'r Ganolfan Uwchefrydiu Celtaidd sydd ar fin cyhoeddi gwaith Llawdden, bardd o Bowys (ac o bwys) yn y bymthegfed ganrif; a Robin Chapman, sy'n addo clamp o gofiant i Saunders Lewis erbyn yr Eisteddfod eleni. Cytunom ym erys eto swmp o waith S.L. y dylid ei ailgyhoeddi, e.e. detholiad, onid y cyfan, o'i golofn *Cwrs y Byd*. Hoffai gael copi o *Ari Wyr Ifaine* (GPC, 1986): anfoner ato yn

CYFRES V WERIN

Golygyddion:

LEIC L. EVANS HENRY LEWIS

RHEF 11.

Dychweledigion

Drama Deulaidd yn dair Act

GAN

HENRIK IBSEN

Trosiwyd i'r Gymraeg gan

T. GWYNYS JONES.

Cyhoeddiwyd gan

MORGAN & HUGES, BRATHFIELD ST., ABERTAWNE.

Argraffwyd gan

WILLIAM LEWIS (ARGRAFNYN) CYF., CAERDYDD.

Wyneb-ddalen: Dychweledigion

Adran Gymraeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Daeth cwsmer eithaf syfrdanol at ein stonid: Elena Parina, gwraig ifanc o Rwsia, a brynodd *Gwerin-Eiriau Maldwyn*, a geiriadur Bodfan Anwyl (Spurrell) ac archebu *laith Sir Fôn a Gwerin-Eiriau Sir Gaermafion*. Ieithydd yw, un o ddarlithwyr Prifysgol Mosgo, lle mae'n dysgu'r Gymraeg. Yr oedd hi newydd dreulio tair wythnos ar gws yn Llanbedr, a siaradai Gymraeg yn rhugl gan fy holi'n frwd ynghylch y naill idiom a'r llall. Sut y gellir dirnad atyniad y Gymraeg i bobl o'r fath (diolch amdanynt!)? Onid yw ei champ yn ddiagon i godi cywilydd ar yr wyth o bob deg yma na allant yn aml iawn ynganu'r un gair o Gymraeg yn gywir?

Dros Glawdd Offa – 1

Bu'n chwth inni orfod colli diwrnod y Gymdeithas yn Nhanybwllch. Yr oeddem ers tro wedi ymrwymo i fynd i Seminar Hyfforddi Blynyddol Cymdeithas y Rhwymwyr Llyfrau ym Mhrifysgol Loughborough. Wrth gyrraedd pen y daith, aethom heibio pentref o'r enw *Nanpantan*: enw anarferol iawn. Tybed a yw'n cynnwys yr elfennau Brythoneg *nant, pant*? Nid yw ymhell o Breedon, yn Charnwood Forest., dau enw sy'n cynnwys elfennau Brythoneg (bre, cam), ac yn tystio i gnewyllyn o siaradwyr Brythoneg orosi'r gorllif Saesonaidd am ryw hyd. Chwilais yn *Dictionary of Place-Names E.Ekwall* ond yn ofer. Troais at lyfr a fydd yn dra anhysbys i'r rhan fwyaf ohonoch, mi fentraf: *Celtic Voices, English Places: Studies of the Celtic Impact on Place-Names in England*, gan R. Coates, A. Breeze a D. Horowitz. (Shaun Tyas, Stamford, 2000) ISBN 1 900289 41 5. Pris: £30.00. Cyfrol swmpus a diddorol yw er gwaethaf ambell ddalgeibiad (e.e. honnir bod Tremeirchion yn cynnwys lluosog dawl i'r gair meirch: yr enw personol Meirchiana, o'r Lladin Marcion neu Marcianus sydd ynddo.) Rhestrir Breedon a Charnwood yno, ond nid Nanpantan. O'r diwedd euthom i lygad y ffynnon a holi'r Athro Hywel Wyn Owen. Och! Siom a fu! Enw diweddar ydyw, gynt *Nan Pantan's house*, o enw'r wraig a drigai yno! Er hynny, mae taro ar enwau lleoedd a all dystio i barhad Brythoneg a Hen Gymraeg yn Lloegr, yn bleser mawr imi ar fy nheithiau yn y wlad honno – mae llawer iawn mwy ohonynt nag a dybir gan y rhan fwyaf ohonom. Wrth fynd trwy Sir Gaerwranog aethom trwy bentref Pensax, y cytunir ei fod yn tarddu o'r Hen Gymraeg pen sais - llecyn lle 'roedd Sais wedi ymsefydlu; gerllaw, y mae Menithwood, sy'n cynnwys y gair mynydd.

Yn ôl i'r Hen Ogledd

Yn yr un maes, llyfr diddorol iawn yw *Welsh Origins of Scottish Place-Names* gan William Oxenham. (Carreg Gwalch, 2005) Pris £6.50. sydd yn mynd i garped-bag enwau megis Lanark (Llanerch), Lothian (Lleuddinion), Kelso (Calchfynydd) ayb yn yr Hen Ogledd, lle
(Parhâd ar y dudalen nesaf)